Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd

Dyddiad: Dydd Llun, 15 Ionawr 2018

Amser: 14.30 – 16.13

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4916

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Mick Antoniw AC (Cadeirydd) Dai Lloyd AC David Melding AC
Tystion:	Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid Nick Howard, Llywodraeth Cymru Joanne McCarthy, Y Gwasanaeth Ymchwil David Richards, Llywodraeth Cymru Gareth Howells Simon Thomas AC
Staff y Pwyllgor:	P Gareth Williams (Clerc) Tanwen Summers (Ail Glerc) Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

2.1 SL(5)162 – Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2017

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

3.1 SL(5)158 – Rheoliadau Modrwyo Adar Penodol a Fridiwyd mewn Caethiwed (Cymru a Lloegr) 2017

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a bydd yn adrodd i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau rhinweddau a nodwyd.

3.2 SL(5)161 – Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Gweinyddu) (Cymru) 2018

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a bydd yn adrodd i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau rhinweddau a nodwyd.

3.3 SL(5)160 – Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2018

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a bydd yn adrodd i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau rhinweddau a nodwyd.

4 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 ond sydd â goblygiadau o ganlyniad i'r DU yn gadael yr UE

4.1 SL(5)159 – Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2017

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

5 Papurau i'w nodi

5.1 Datganiad Llywodraeth Cymru: Cod Erlyn Llywodraeth Cymru

Nododd y Pwyllgor y datganiad.

5.2 Bil Masnach: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Nododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

6 Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 1

Derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid.

7 Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru): Sesiwn dystiolaeth lafar 2

Derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Simon Thomas AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil.

8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

Derbyniwyd y cynnig.

9 Trafod y dystiolaeth: Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y dystiolaeth gan Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Simon Thomas AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil.

10 Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael): Hynt Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Nododd y Pwyllgor y papur.